

**Cyngor Cymuned Pentir**  
**Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 12fed o Orffennaf 2018**  
**yn Y Swyddfa, Parc Menai am 7pm.**

## Agenda

### Gweddi

Presennol / Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cyfethol i ward Glasinfryn /Pentir

Cofnodion 26ain o Fehefin 2018

Materion yn codi o'r cofnodion

### Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid 26ain o Fehefin Cyn y Cyfarfod Llawn

- Adroddiad ariannol
- Ceisiadau Ad 137
- Cyfrifon 2017-18
- Archwilwyr mewnnol / Allannol

### Ceisiadau Cynllunio diweddard ardal Pentir

- Cais am ddiwygiad ansylweddol i ganiatad rhif C18/0312/25/LL ar gyfer ail leoli'r anecs 1 medr yn agosach i dy'r ymgeisydd 2, MAES MAWR, PENRHOSGARNEDD, GWYNEDD, LL572LR

### Materion y Clerc

- Gohebiaethau
  - Parthed Llwybr yr Arfordir
  - Archwyliad Cae Chwarae Caerhun
    - Sefyllfa diogelwch
      - Notch yng nghadwynni y swing
      - Gap rhwng y teils ar y llawr
    - Taliad £66.50 + TAW £79.80
  - Prydles Canolfan Penrhos
  - Gamlins
- Adroddiadau
  - Cau achosion coed fynwent yr eglwys
  - Mater yr Hysbysfwrdd ger Ysbyty Gwynedd
  - Arwyddion Llwybrau cyhoeddus
  - Dyddiad Is Bwyllgor Asedau

### Materion y Cynghorwyr

Cyng Lowri A James

Parcio bler yn ardal Glasinfryn

Cyng James Griffiths

Ty'n Ffridd

**Cyngor Cymuned Pentir**

## **Cofnodion Cyngor Llawn gynhaliwyd Nos Iau 26<sup>ain</sup> o Fehefin 2018 yn Parc Menai am 7pm**

### **Presennol:**

Y Cyng. D Jones-Morris. - D. W. Jones. - R. Jones. - J. Griffiths, - L. James, - B Jones, - a C. E. Hughes,

E Jones (Clerc )

### **Ymddiheuriadau:**

Y Cyng, J Pierce, - T Anwyl-Williams - M. Baines a H Griffiths

Cadeirwyd ac offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.

### **Côd Ymddygiad**

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant os cyfyd yr angen

Gan fod Prydles Canolfan Penrhosgarnedd eto ar yr Agenda, nodwyd a chofnodwyd fod Cyng Richard Jones yn drysorydd y Ganolfan a fod y Cyng M Baines yn gadeirydd y Ganolfan

### **Derbyn cofnodion 10fed o Fai 2018**

Cynnigwyd gan Cyng J Griffiths eu bod yn gywir ag eilwyd y cynnig gan y Cyng R Jones

### **Materion yn codi**

Dim nad oedd eisioes ar yr Agenda

### **Sedd Wag Glasinfryn –**

Rhybudd tae 10 o etholwyr yn gwneud cais ysgifenedig am etholiad wedi dod i ben.

Rhybudd bellach wedi ei roi fyny yn holi am enwau i'w cyfethol ar ol 14 diwrnod ddaw i ben 10fed o Orffennaf.

### **Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid 26 -06 – 18**

Oherwydd fod y Cyngor Llawn wedi ei ohirio ddwy waith a Is Bwyllgor Cyllid i fod ymlaen Nos yfory 27ain o Fehefin cytunwyd ei symud ymlaen ail gynnal cyn y Cyngor Llawn heno

Dosbarthwyd adroddiad IBC 30ain o Fai oedd bellach wedi eu cadarnhau ynghyd ag adroddiad ariannol gyfredol Mehefin ag adroddiad ar lafar IBC hneo

**Adroddiad 30ain o Fai** yn cadarnhau fod y Praesept wedi dod i mewn a tal am ddau angladd

Un cais am nawdd wedi ei dderbyn gan Bobath – Argymell nad oeddem am gyfrannu atynt eleni  
Cytunwyd y Taliadau ynghyd a adnewyddu yr Yswiriant oedd wedi cyrraedd ar ol i'r Agenda gael ei anfon allan.

Cytunwyd talu am gasglu gwastraff y fynwent unwaith byddai invioce wedi ein cyrraedd ond holi pam oedd un bin gwastraff wedi ei symud o'r fynwent newydd

Cytunwyd i'r Is Bwyllgor Cyllid gyfarfod ½ awr cyn y Cyngor Llawn nesaf ar Fehefin 14eg i drafod telerau'r Clerc

Cais Clwb Peldroed ieuencid Penrhosgarnedd i Cyngor Pentir fod fel Corff Gweinyddu ariannol iddynt  
Clerc i wneud ymholiadau gyda'r Cyfreithwyr i holi os oedd hyn yn gyfreithiol

Diweddariad Prydles canolfan Penrhos

Cyngor Llawn yn derbyn y drafft oedd Gamlins wedi ei lunio ar ein rhan

Cytunwyd i'r Clerc gysylltu a Gamlins i argymell anfon y Drafft at Cyngor Gwynedd

### **Cyfarfod 26/06/18.**

Ar lafar adroddwyd fod yr Is-bwyllgor Cyllid wedi trafod telerau'r Clerc ac yn argymell

a) symud ei raddfa cyflog o Pwynt 21 i Pwynt 27.

b) Ei ol dalu yn ol i 1af o Ebrill 2018

c) Cadw'r oriau fel ag y maent ond iddo fonitro ei oriau dros y misoedd nesaf

**Cafodd yr argymhelliad ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn** a diolchwyd i'r Clerc am ei waith dros y flwyddyn.

Ni fu cais am Nawdd yn ystod Mis Mehefin

**Yr adroddiad ariannol gyfredol** yn dangos £31,655.56 yn y banc ond fod £1,453.70 heb ei gyflwyno Argymhellwyd Talu D W Lewis Torri gwair Mai a Mehefin Llyw Cymru Rhent 2ail ¼ Cyflog a Treth Incwm Mis Mehefin Cyngor Gwynedd - Gwastraff a Garddio J D Gardenning

Incwm Yn dilyn ail-asesiad gan y Swyddfa Drethi daeth ad-daliad o £548.90 o Cyngor Gwynedd a thal am un angladd

### **Adroddiad Archwilwyr Mewnol**

Rhanwyd gynnwys adroddiad yr Archwilwyr Mewnol sef Adran archwilio Cyngor Gwynedd eleni.

**Derbynwyd yr Adroddiad gan gymeradwyo fod y Cyngor Llawn yn ei derbyn a'i anfon ymlaen i'r Archwilwyr Allannol y BDO unwaith byddai y Cadeirydd a'r Clerc wedi ei arwyddo.**

**Derbynwyd yr argymhelliad gan y Cyngor Llawn ag arwyddwyd y Ddogfen gan y ddau Swyddog**

### **Prydles Canolfan Penrhos**

Y Clerc wedi derbyn llythyr gan Gamlins yn holi pwy fyddai yn arwyddo y dogfennau ar ran Cyngor Pentir a'n cyfeiriad fel tenantiaid.

Argymhell fod Cadeirydd y Cyngor Llawn a Chadeirydd yr Is-Bwyllgor Cyllid yn arwyddo

### **Ceisiadau Cynllunio**

- C18/0438/25/LL Estyniad ochr unllawr 1, Bro Infryn, Glasinfryn, Bangor, LL574UR **Dim gwrthwynebiad**
- C18/0522/25/LL Dymchwel ystafell haul bresennol a chodi estyniad unllawr yn ei le 5, Ysgoldy Terrace, Capel Y Graig, Bangor, Gwynedd, LL57 2SJ **Dim gwrthwynebiad**

Ychwanegodd y Clerc iddo gael e-bost gan ddeiliaid 2 Maes Mawr Penrhos yn holi pam oedd y Cyngor wedi gwrthwynebu eu cais ag os byddai posib iddi dderbyn cofnodion o'r cyfarfod.

Cadarnhaodd fod y cais wedi cael ei gymeradwyo erbyn hyn

'Roedd wedi e-bostio yn ol yn datgan na fyddai problem anfon y cofnodion atynt unwaith y byddai'r cofnodion wedi eu derbyn fel rhai cywir. Byddai'n gwneud hynny yn dilyn cyfarfod heno

Ia Bwyllgor Asedau

'Roedd bwriad i gyfarfod y pwyllgor yma Nos Iau ond oherwydd prysurdeb i gael gwaith gweinyddol allan mewn pryd cytunwyd i ail-drefnu.

Datblygiad Prydles canolfan Penrhos

Cymeradwyo argymhelliad yr Is-Bwyllgor Cyllid ynglyn a phwy fyddai'n arwyddo a'n cyfeiriad

### **Datblygu Ysgol y Faenol / Canolfan Gymunedol**

'Roedd **cofnodion Cyfarfod arbennig gynhalwyd 17 o Fai** i drafod yr opsiynau oedd o'n blaenau wedi eu dosbarthu a thrafodwyd hefyd yr hyn drafodwyd rhwng Geraint Owen Adran Eiddo Cyngor Gwynedd a dirprwyaeth o'r Is Bwyllgor Cyllid gyfarfu 13ain o Fehefin.

Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir ar gynnig Cyng B Jones a'r Cyng D Jones-Morris yn eilio Mynegwyd pryder ynglyn a'r hyn oedd yn cael ei ddisbarthu/ymgyngori a'i drafod gan Adran Addysg Cyngor Gwynedd a chytunwyd i wahodd y ddwy adran i'n cyfarfod unwaith eto cyn ymrwymo ymhellach yn y fenter.

Esbonwyd fod y ddirprwyaeth wedi gofyn os oedd yn bosib symud y ganolfan arfaethedig ar y cynlluniau yn agosach at y ffordd fel ei bod yn cael ei 'gweld o leiaf' yn sefyll ar ei phen ei hun er yn rhan o adeiladwaith yr ysgol

Diolchodd Cyng R Jones i'r Cyngor am eu gwaith yn ymdrin a'r mater holl bwysig yma i'r gymuned.

#### Materion y Clerc

- Gohebiaethau
  - Llythyr gan Owen Davenport ynglyn a ymgynghori cyn gwneud cais i adeiladu 40 o unedau gwyliau yn Coed Y Wern wedi ei rannu a trefniant bellach mewn lle i'r Cwmni ddod a'u Cynlluniau gerbron y trigolion lleol yng Nghanolfan Gymunedol Glasinfryn ar y 4ydd o Orffennaf. Diolchwyd i'r Clerc am drefnu
  - Cyswllt Gogledd Cymru – Trafodwyd pryderon ynglyn a'r holl fenter yn enwedig styfnigrwydd y Cwmni i wrando ar lais holl gynghorau cymuned ynglyn a gosod peilonau yn hytrach na dod a'r ceblau o dan ddaear fel sy'n digwydd dro ar ol tro yn Lloegr a dan y môr o'r Alban
- **Cytunwyd i'r Clerc lythyru 'r Cwmni a chopio yr Aelod Seneddol ag Aelod Llywodraeth Cymru i ddatgan ein barn**
- Adroddiad
  - Hysbysfyrddau      Caniatad Ysb Gwynedd wedi ei dderbyn y contactwr i gysylltu a Valerie Harries i adael iddynt wybod pryd bydd yn gwneud y gwaith
  - Mapiau              Heb eu gosod gan fod yr argraffwyr wedi cau lawr am gyfnod
  - Twll yn Wal      Y Clerc wedi atgoffa yr Adran Tramwyo yn Cyngor Gwynedd gan iddynt addo y byddai'r Adran yn gwneud y Cynllun ar ein rhan ar gyfer y gwaith yma.
  - Holwyd os oedd yn bosib holi Gamlins ynglyn a Wal Coed y Maes a'r Septic Tanc yng Nghanolfan Glasinfryn **Cytunwyd i'r Clerc gysylltu a Gamlins**

#### Materion y Cynghorwyr

**Lowri James**    Polisiau - 'Roedd yn ymwybodol fod polisiau mewn lle ond o bosib angen ail-ymweld a rhai i weld os oeddent angen ei adolygu ai peidio. Mae'r archwilwyr allannol yn gofyn am wahanol elfennau llywodraethu y cyngor bob blwyddyn. 'Roedd cytundeb Cyflogaeth y Clerc wedi ddarganfod ag i'w anfon at yr archwilwyr allannol ei anfon. Rheoliadau Ariannol angen edrych drostynt ai adolygu os bydda angen cyn eu mabwysiadu yn ystod Cyngor Gorffennaf. Diolchwyd iddi am ei gwaith.

**James Griffiths**    Arwydd 'Llwybr Cyhoeddus' wrth giat Ty'n Ffridd naill ai wedi ei dynnu neu ei ddwyn Dwr ar y ffordd yn yr un lleoliad **Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir a Bwrdd Dwr**

Arwydd 'llwybr cyhoeddus ar goll hefyd wrth giat Tyddyn Heilyn

**Dafydd Jones-Morris**    yn datgan pryder fod son am leoli Gwasanaeth Stroc yn ganolog yng Ngogledd Cymru ag nad oedd yn awyddus i weld hyn yn digwydd. **Cyng B Jones am gael gair gyda Rhys Davies i weld os oedd unrhyw sail i'r pryder**

**Cyng B Jones** am holi ynglyn a thorri gwair yn amlach yn ardal Penrhos

Daeth y cyfarfod i ben 8.50